Prynu mewn ocsiwn

Beth ddywed y gyfraith

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau pan fyddwch chi'n prynu nwyddau, bydd y gyfraith yn disgwyl eu bod:

- **yn cyd fynd â'u disgrifiad.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddynt fod fel y'u disgrifiwyd gan y gwerthwr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgrifiad sydd ar y label**.** Er enghraifft, os disgrifir pâr o gynfasau fel rhai ffitiedig, rhaid iddynt fod yn gynfasau ffitiedig. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'n golygu hefyd fod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw honiadau a wneir amdanynt mewn hysbysebion;
- **o ansawdd boddhaol** ac **yn addas i'w diben.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r nwyddau gwrdd â safonau y byddai unrhyw berson rhesymol yn eu disgwyl, gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad, y pris a phob gwybodaeth berthnasol arall. Mae hyn yn cynnwys golwg a gwedd orffenedig y nwyddau ac os ydyn nhw'n ddiogel, yn nwyddau sy'n para ac yn rhydd o unrhyw ddiffygion (yn cynnwys mân ddiffygion).

Mae'r gofynion hyn i'w gweld yn Neddf Gwerthu Nwyddau 1979. Fel arfer maent yn berthnasol i'r holl nwyddau a brynir oddi wrth werthwr sy'n gwerthu yng nghwrs busnes. Os ydyw'r gwerthwr yn unigolyn sy ddim yn gwerthu yng nghwrs busnes, dim ond y gofyniad cyntaf sy'n berthnasol - rhaid i'r nwyddau gyd-fynd â'u disgrifiad ond nid oes rhaid iddynt yn ôl y gyfraith fod o ansawdd boddhaol nac yn addas i'w diben.

Mae'ch hawliau chi o dan y Ddeddf Gwerthu Nwyddau yn berthnasol i bob nwydd newydd a brynir mewn ocsiwn a hefyd i nwyddau ail law a brynir mewn ocsiwn lle na chawsoch y cyfle i fynychu'n bersonol, er enghraifft, ocsiwn ar y rhyngrwyd.

Sut bynnag, os ydych chi'n prynu mewn ocsiwn mae'n bosibl y collwch chi'r hawliau hyn:

- os yw'r nwyddau'n ail law; *a*
- os ydych chi'n cael y cyfle i fynychu'r arwerthiant yn bersonol; *a*
- os dywedir wrthych nad yw **Deddf Gwerthu Nwyddau 1979** (fel y'i diwygiwyd) **yn berthnasol** neu fe werthwyd y nwyddau **fel yr ydych yn eu gweld**. Gallai hyn fod yn ffurf hysbysiad neu gymal eithrio yn y catalog; *a*
- os gall yr ocsiwnïer ddangos fod hyn yn **rhesymol.**

Pan fyddwch chi'n prynu nwyddau mewn ocsiwn, mae'r **prynwr** yn ymrwymo mewn cytundeb gyda **pherchennog** y nwyddau, nid yr ocsiwnïer. Golyga hyn os oes yna broblem gyda'r nwyddau, fel arfer rhaid i chi **gymryd achos yn erbyn perchennog** y nwyddau, nid y tŷ ocsiwn. Nid oes rhaid i'r tŷ ocsiwn roi manylion y perchennog i chi, ac felly gall dod o hyd i'r perchennog fod yn anodd. Sut bynnag, mae gan y tŷ ocsiwn rai cyfrifoldebau, er enghraifft, rhaid iddo beidio gwneud datganiadau ffug am y nwyddau. Dylid esbonio'r cyfrifoldebau hyn yn nhelerau busnes y tŷ ocsiwn ac fe ddylid eu harddangos. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i ocsiynau pell yn y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

DU. Os brynoch chi rywbeth mewn ocsiwn ar y rhyngrwyd oddi wrth gwmni sy wedi'i lleoli y tu allan i'r DU, bydd cyfraith y wlad honno fel arfer yn berthnasol os bydd angen cyngor cyfreithiol arbenigol arnoch.

Os ydyw'r nwyddau'n ddiffygiol

Ad-daliad
Mae'n annhebygol y gallwch chi gael eich arian yn ôl os oedd hi'n glir pan brynoch chi'r nwyddau nad oedd Deddf Gwerthu Nwyddau **yn berthnasol** (gweler uchod).

Lle nad yw telerau Deddf Gwerthu Nwyddau **yn berthnasol** (gweler uchod) efallai y gallwch chi gael eich arian yn ôl ond bydd hyn yn dibynnu os yw'r gwerthwr yn fasnachwr a pha mor hir y bu'r nwyddau gyda chi a difrifoldeb y diffyg. Os mai unigolyn preifat oedd y gwerthwr, fyddwch chi ddim â'r hawliau i ansawdd boddhaol neu addasrwydd i'w diben ond fe ddylech chi o hyd allu dibynnu ar unrhyw ddisgrifiad a roddwyd o'r nwyddau. Cysylltwch â'r tŷ ocsiwn cyn gynted ag sy'n bosibl a gofyn am eich arian yn ôl. Os ydych chi wedi talu ffî indemniad, gwiriwch os ydyw hwn yn gwarchod eich problem arbennig chi. Er enghraifft, os welwch chi fod y car brynoch chi mewn ocsiwn wedi'i recordio yn HPI fel 'colled lwyr', efallai y bydd gennych hawl o dan y polisi indemniad.

Os rhoddwyd **gwarant** i chi gyda'r nwyddau brynoch chi mewn ocsiwn, efallai na fyddwch yn gallu hawlio o dan hwn gan fod gwarantau yn aml yn anhrosglwyddadwy ac felly peidiwch â dibynnu ar hyn wrth gynnig eich pris.

Mae rhai ocsiynau ceir yn rhoi amser cyfyngedig i brynwr i brofi'r car a'i wrthod os nad yw'n addas. Gall hyn fod yn fater o ychydig oriau'n unig ac felly mae'n werth edrych yn ofalus ar delerau'r busnes.

Amnewid neu atgyweirio
Os brynoch chi nwyddau newydd mewn ocsiwn ar neu ar ôl 31 Mawrth 2003, neu nwyddau ail law mewn ocsiwn lle nad oeddech chi'n gallu bod yno'n bersonol, fe allwch ofyn i'r masnachwr am amnewid neu atgyweirio'r nwyddau yn rhad ac am ddim os ydyn nhw'n ddiffygiol. Os gwnewch chi hyn o fewn chwe mis i dderbyn y nwyddau, a'i fod yn rhesymol i ddisgwyl iddynt fod wedi parhau am y cyfnod y buon nhw gyda chi, tybir fod y broblem yno pan brynoch chi'r nwyddau, oni bai fod y masnachwr yn gallu dangos fel arall. Sut bynnag, fe allwch barhau i ofyn am amnewid neu atgyweirio i fyny hyd at chwe blynedd o'r dyddiad y prynoch chi'r nwyddau, os ydyw'n rhesymol iddynt fod wedi parhau mor hir â hynny. Yn yr achos hwn, mae i fyny i chi i ddangos fod y nwyddau'n ddiffygiol adeg y gwerthu.

Os**:**

- ydyw'n amhosibl amnewid neu atgyweirio'r nwyddau; *neu*
- os byddai amnewid neu atgyweirio yn afresymol o gostus i'r masnachwr o'u cymharu ag atebion amgen; *neu*
- os yw'r masnachwr yn methu amnewid neu atgyweirio'r nwyddau o fewn amser rhesymol i gytuno gwneud hynny neu'n achosi anghyfleustra sylweddol; *neu*
- os yw'r nwyddau wedi gweithio am beth amser cyn mynd yn ddiffygiol neu dim ond un o'u swyddogaethau sy wedi mynd o le

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

yna:

- fe allwch ofyn am ad-daliad rhannol neu ad-daliad llawn. Gall swm yr arian dderbyniwch chi yn ôl gael ei leihau er mwyn cymryd i ystyriaeth y defnydd gawsoch chi o'r nwyddau.

Nid yw'r hawliau i atgyweirio neu amnewid yn berthnasol i eitemau ail law lle cewch chi'r cyfle i fynychu'r ocsiwn yn bersonol. Nid ydynt yn berthnasol chwaith os gwerthwyd y nwyddau gan werthwr preifat.

Iawndal

Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os:

- yw'r cytundeb rhwng y **prynwr a'r perchennog** wedi'i dorri (**tor cytundeb**) *neu*
- oedd y nwyddau yn **anniogel** neu **beryglus ac wedi achosi difrod i bobol neu eiddo**. Yn yr achos hwn, efallai y gallwch gymryd achos yn erbyn gwneuthurwr y nwyddau; *neu*
- yw'r tŷ ocsiwn wedi bod yn **esgeulus** ac o ganlyniad rydych chi wedi profi colled neu anaf**;** *neu*
- yw'r tŷ ocsiwn yn fwriadol wedi gwneud **datganiad ffug** am y nwyddau er mwyn eich perswadio chi i'w prynu.

Bydd swm yr iawndal y byddai gennych hawl iddo yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr anaf neu'r broblem.. **Fe ddylech bob amser gael cyngor cyfreithiol cyn penderfynu derbyn iawndal am anaf personol ai peidio.**

Sut i ddatrys eich problem

Penderfynwch beth yw'ch hawliau a phwy y dylech chi gysylltu â hwy. Hyd yn oed os nad oes gennych hawliau cyfreithiol, weithiau mae'n bosibl i ddod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i bawb. Dylai'r camau canlynol ddatrys y broblem:

- **peidiwch â defnyddio'r nwyddau mwyach**

- **dowch o hyd i brawf eich bod wedi prynu**. Os yn bosibl, dowch o hyd i'ch derbynneb ac unrhyw dystysgrif indemniad a roddwyd i chi ar y pryd. O fethu hynny, dylai taleb cerdyn credyd neu fonyn siec wneud y tro.

- **os ydyw'r nwyddau'n beryglus ac mae rhywun wedi dioddef anaf** neu os ydych chi'n teimlo fod y nwyddau wedi eu cam-ddisgrifio'n sylweddol, trafodwch y mater gyda Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 4040 0506 cyn mentro dychwelyd y nwyddau. **Cofiwch gael cyngor cyfreithiol bob amser cyn penderfynu derbyn iawndal am anaf personol ai peidio.**

- **fel arall, cysylltwch â'r tŷ ocsiwn**. Os ydyn nhw'n dweud wrthych fod eich hawliau o dan y Ddeddf Gwerthu Nwyddau wedi'u heithrio, gofynnwch iddynt am ddangos yr arwydd neu'r ymwadiad er mwyn i chi ei wirio. Beth bynnag, ni ddylai'r tŷ ocsiwn ymwrthod ag atebolrwydd os ydyn nhw wedi bod yn esgeulus. Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch camarwain gan ddatganiad llafar o enau'r arwerthwr, gofynnwch iddynt ar unwaith os oes ganddynt

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

recordiad o'r gwerthiant. Yn aml mae tai ocsiwn yn gwneud hyn ond fe allan nhw ail ddefnyddio'r tâp os na ofynnwch chi am hyn yn weddol fuan.

- **os ydych chi'n teimlo fod cyfrifoldeb yn gorwedd gyda pherchennog y nwyddau** ac y mae gennych y manylion hyn, cysylltwch â nhw ac esbonio'ch problem yn dawel ond yn gadarn gan ofyn am **ad-daliad llawn**, **amnewid, atgyweirio** neu **iawndal.**

- **os ydyw'r tŷ ocsiwn yn rhoi cynnig i chi,** fe allwch naill ai ei **dderbyn** neu **barhau i drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys**.**

- **os yw'r mater heb ei ddatrys o hyd** ysgrifennwch at y perchennog neu'r arwerthwr gan ail adrodd eich cwyn a'r camau a gymerwyd gennych i'w ddatrys. Dywedwch eich bod yn rhoi 14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem, neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol**.**. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i brif swyddfa'r cwmni, os oes un. **Cadwch gopïau** o bob llythyr a nodiadau am unrhyw sgyrsiau dros y ffôn gawsoch chi mewn cysylltiad â'ch problem.

- **os nad yw'r perchennog na'r tŷ ocsiwn yn ymateb,** yn gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth**.** Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y cwmni **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian.

Os ydych wedi colli arian wrth brynu nwyddau mewn ocsiwn, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credyd
- Diogelwch
- Nwyddau
- Gwasanaethau
- Gwarantau
- Dechrau achos llys

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Gorffennaf 2006, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr